Cynllunio Trawsnewid - Canllaw i Rieni a Gofalwyr

14+

Trawsnewid (Pontio) Beth nesaf?

Rhif Elusen Gofrestredig. 1027599 / Rhif Cwmni Cyfyngedig: 2832114
Noddwyr: Glenys Kinnock ASE / Dr Phillipa Russell CBE / Richard Mylan
Cefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Beth yw Trawsnewid?

"Pontio" yw pan fydd person ifanc yn dechrau meddwl am adael ysgol i fynd i goleg, i weithio, i hyfforddi neu rywbeth arall. Tua'r adeg yma, bydd yn rhaid i'r person ifanc a'r teulu gymryd penderfyniadau ynghylch eu dyfodol.

Gall hynny fod yn eithriadol o gymhleth i berson ifanc sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Mae'n bwysig fod pawb sydd â rhan mewn cynllunio ar gyfer pontio yn ymwybodol o egwyddorion Côd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru 2002.

Mae'r Rheoliadau'n dweud bod yn rhaid paratoi cynllun pontio yn ystod adolygiad blynyddol blwyddyn 9 ar gyfer pob person ifanc gyda datganiad Anghenion Addysgol Arbennig. Amcan y cynllunio transnewid yw helpu'r person ifanc i baratoi ar gyfer bywyd llwyddiannus y tu allan i'r ysgol.

Mae'r Côd Ymarfer yn dweud "Mae'n rhaid i'r Adolygiad Blynyddol ym mlwyddyn 9 ac unrhyw adolygiad blynyddol ar ôl hynny gynnwys llunio a yna adolygu'r cynllun trawsnewid nes bod y person ifanc yn gadael yr ysgol".

Dylai'r cynllun trawsnewid gasglu gwybodaeth gan wahanol bobl yn ac o'r tu allan i'r ysgol sydd yn ymwneud â'r person ifanc. Bydd yna Adolygiad Blynyddol arbennig trawsnewid ym mlwyddyn 9.

Hunan Eiriolaeth

Mae rhai pobl ifanc yn gallu siarad drostyn nhw eu hunain a rhai eraill yn hapusach yn siarad â chi, eu ffrindiau neu aelodau eraill o'r teulu. Yn aml, mae pobl ifanc yn ei chael yn haws siarad â rhywun sydd wedi'i hyfforddi i'w cefnogi nhw neu sy'n gallu siarad ar eu rhan.

Gelwir y person hwn, weithiau, yn 'Eiriolwr'. Mewn rhai mannau, gall pobl ifanc ymuno â grŵp hunaeiriolaeth a fydd yn eu helpu i deimlo'n fwy hyderus wrth siarad drostyn eu hunain.

Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth Teulu lleol, Gweithiwr Cymdeithasol, yr Ysgol a SNAP Cymru eich helpu i ganfod rhagor.

Pwy fydd yn y cyfarfod trwasnewid?

Bydd yr ysgol yn trefnu'r cyfarfod trawsnewid gyda'r person ifanc a chyda chithau. Mae yna hefyd nifer o bobl y mae'n rhaid eu gwahodd i'r cyfarfod. Weithiau, mae adroddiad ysgrifenedig gan y bobl hyn yn dderbyniol os na allan nhw fod yno.

- Rhiant neu ofalwr y person ifanc
- Ymgynghorydd personol Gyrfa Cymru
- Athro perthnasol
- Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig
- Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol
- Unrhyw berson y mae'r Awdurdod Lleol yn ddymuno ei gael yno
- Y person ifanc
- Seicolegydd Addysgol yr Awdurdod Lleol
- Cynrychiolydd y Gwasanaeth Iechyd

Pwy arall all helpu?

Mae rhai pobl ifanc yn ei chael yn hawdd paratoi cynlluniau. Mae rhai eraill yn ei chael yn haws trafod eu dyfodol gyda rhai nad ydyn nhw'n eu hadnabod ond sy'n deall cynllunio trawsnewid. Mae ymgynghorwyr Gyrfa Cymru'n helpu pob person ifanc gydag Anghenion Addysgol Arbennig i baratoi ar gyfer y broses o trawsnewid. Dylai'r ysgol sicrhau fod gan Gyrfa Cymru ran yn y broses trawsnewid o mor gynnar â blwyddyn 8.

Llinell gymorth
0845 120 3730
www.snapcymru.org

SNAP Cymru, 10 Coopers Yard,
Fforddd Curran, Caerdydd CF10 5NB
Ffôn: 029 2038 4868 Ffacs: 029 2034 8998

FundRaising Standards Board
BUDDSODDWR MEWN POBL INVESTOR IN PEOPLE
INVESTING IN VOLUNTEERS BUDDSODDI MEWN GWIRFODDWYR
Galw Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol
Community Legal Service